# Gweithdrefnau Gêm 5 Years For You Deluxe




## Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer 5 YEARS FOR YOU DELUXE (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

## Manylion y Gêm



Enw'r Gêm: **"5 YEARS FOR YOU DELUXE"**
Rhif y Gêm: **"Game 1405"**
Pris Manwerthu: **£5 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.31 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 18,847,380 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.



## Sut i chwarae ac ennill

Mae dwy Ardal Chwarae wedi'u labelu fel 'GAME 1' a 'GAME 2'. Gall Chwaraewyr ennill hyd at 14 gwaith ar Gerdyn Crafu.

## GAME 1

Mae Ardal Chwarae GÊM 1 yn cynnwys wyth motiff '' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr") yn union o dan bob '' motiff yn yr adran o dan y pennawd 'YOUR SYMBOLS' ("Adran Eich Symbolau") a dau fotiff '' yn yr adran o dan y pennawd 'WINNING SYMBOLS' (yr "Adran Symbolau Buddugol"). Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan yr haen yn yr Adran Symbolau Buddugol sy'n cyfateb i Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae cyfatebol gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol yn Adran Eich Symbolau.

### Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 1

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **BOTTLE** | **-SUN-** | **-HELI** | **BRCLET** | **NCKLCE** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **WATER BOTTLE** | **SUN** | **HELICOPTER** | **BRACELET** | **NECKLACE** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **COMPAS** | **SANDAL** | **CAMERA** | **RINGS** | **GLDKEY** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **COMPASS** | **SANDALS** | **CAMERA** | **RINGS** | **GOLD KEY** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **-BOAT** | **-BANK** | **WALLET** | **SUNHAT** | **-VIP-** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **BOAT** | **BANK** | **WALLET** | **SUN HAT** | **VIP** |

18+

**GP GM1405**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

Bydd dau Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn yr Adran Symbolau Buddugol yn Ardal Chwarae GAME 1. Bydd wyth Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau yn Ardal Chwarae GAME 1. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 1 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 1.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 1



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £15.00 | £20.00 | £50.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | **-FIVE** | **-TEN-** | **FIFTN** | **TWNTY** | **FIFTY** | **-HUND** |
| Symbolau Gwobr | £500 | £1,000 | £5,000 | £50,000 | 5YEARS | |
| Penawdau Gwobr | **FVHUN** | **-THOU** | **FIVTH** | **FTTHO** | **5YEAR** | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Blwch Gwobr yn Adran Eich Symbolau yn Ardal Chwarae GAME 1. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr yn Adran Eich Symbolau yn Ardal Chwarae GAME 1 y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â GAME 1.

GAME 2

Mae Ardal Chwarae GAME 2 yn cynnwys chwe Rhes wedi'u labelu fel 'ROW 1', 'ROW 2', 'ROW 3', 'ROW 4', 'ROW 5 a, 'ROW 6', ("Rhes" yn unigol, "Rhesi" gyda'i gilydd). Mae ROW 1 yn cynnwys dau fotiff '' (bydd y lliw yn wahanol) a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Mae ROW 2 yn cynnwys dau fotiff '' (bydd y lliw yn wahanol) a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Mae ROW 3 yn cynnwys dau fotiff '' (bydd y lliw yn wahanol) a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Mae ROW 4 yn cynnwys dau fotiff '' (bydd y lliw yn wahanol) a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Mae ROW 5 yn cynnwys dau fotiff '' (bydd y lliw yn wahanol) a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Mae ROW 6 yn cynnwys dau fotiff '' (bydd y lliw yn wahanol) a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu dau Symbol Chwarae unfath gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol o dan yr haen mewn Rhes. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Rhes honno.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 2

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **-HOLS** | **SUITC** | **SHORTS** | **LOUNGE** | **HOUSE** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **HOLIDAY** | **SUITCASE** | **SHORTS** | **LOUNGE CHAIR** | **HOUSE** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **LOTION** | **PHONE** | **BIKINI** | **-SAFE** | **DIAMND** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **LOTION** | **PHONE** | **BIKINI** | **SAFE** | **DIAMOND** |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Penawdau Chwarae | **WATCH** | **-BAG-** | **SHELL** | **TOWEL** | **SNRKEL** |
| Penawdau Chwarae Estynedig | **WATCH** | **BAG** | **SEA SHELL** | **TOWEL** | **SNORKEL** |

18+

**GP GM1405**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

Bydd dau Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Rhes yn Ardal Chwarae GAME 2. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 2 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 2. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un Rhes â Symbolau Chwarae mewn unrhyw Res arall i ennill.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GÊM 2

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £15.00 | £20.00 | £50.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | -FIVE | -TEN- | FIFTN | TWNTY | FIFTY | -HUND |
| Symbolau Gwobr | £500 | £1,000 | £5,000 | £50,000 | 5YEARS | |
| Penawdau Gwobr | FVHUN | -THOU | FIVTH | FTTHO | 5YEAR | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Blwch Gwobr yn Ardal Chwarae GAME 2. Dim ond Symbol Gwobr GAME 2 a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr mewn Rhes y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â Rhes yn GAME 2.

POB GÊM

Os byddwch yn ennill mewn Gêm ac mai '5YEARS' yw'r Wobr, byddwch yn ennill Gwobr os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm o £20,000 bob mis am 5 mlynedd. Mae Rheolau Gêm Benodol yn berthnasol i'r Wobr hon, a gellir dod o hyd iddynt isod.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth y Wobr | Y Gwobrau | | | |
| £5 | £5 | 2,073,143 | 10 | +/−5.00% |
| £10 | £10 | 314,059 | 61 | +/−5.00% |
| £10 | £5 x 2 | 1,759,081 | 11 | +/−5.00% |
| £15 | £15 | 188,445 | 101 | +/−5.00% |
| £15 | £5 + £10 | 376,916 | 50 | +/−5.00% |
| £15 | £5 x 3 | 377,008 | 50 | +/−5.00% |
| £20 | £20 | 62,864 | 300 | +/−5.00% |
| £20 | £10 x 2 | 188,509 | 100 | +/−5.00% |
| £20 | £5 x 4 | 251,292 | 75 | +/−5.00% |
| £50 | £50 | 11,352 | 1,661 | +/−5.00% |
| £50 | £5 x 10 | 33,537 | 562 | +/−5.00% |
| £50 | £10 x 5 | 28,184 | 669 | +/−5.00% |
| £50 | (£15 x 2) + £20 | 21,492 | 877 | +/−5.00% |
| £100 | £100 | 1,797 | 10,489 | +/−5.00% |
| £100 | £50 x 2 | 3,014 | 6,254 | +/−5.00% |
| £100 | (£5 x 10) + (£10 x 2) + (£15 x 2) | 4,785 | 3,939 | +/−5.00% |
| £100 | £10 x 10 | 3,581 | 5,264 | +/−5.00% |
| £500 | £500 | 102 | 184,779 | +/−8.91% |
| £500 | £10 + (£15 x 6) + (£50 x 6) + £100 | 97 | 194,303 | +/−9.39% |
| £1,000 | £1,000 | 36 | 523,539 | +/−17.67% |
| £1,000 | (£50 x 8) + (£100 x 6) | 40 | 471,185 | +/−14.89% |
| £5,000 | £5,000 | 4 | 4,711,845 | +/−36.55% |
| £5,000 | (£50 x 6) + (£100 x 2) + (£500 x 3) + (£1,000 x 3) | 4 | 4,711,845 | +/−36.55% |
| £50,000 | £50,000 | 4 | 4,711,845 | +/−36.55% |
| £1,200,000 | YEAR | 4 | 4,711,845 | +/−36.55% |

18+



THE NATIONAL LOTTERY

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 70.46% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £66,397,400 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd Gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.

## RHEOLAU GÊM BENODOL SY'N YMWNEUD Â GWOBRAU 1405 5 YEARS FOR YOU DELUXE

Pan fyddwch yn chwarae Gêm Cardiau Crafu y Loteri Genedlaethol "5 YEARS FOR YOU DELUXE" (Gêm Rhif 1405) (y "Gêm"), mae'r Rheolau Gêm Benodol hyn (y "Rheolau"), y Gweithdrefnau Gêm (y "Gweithdrefnau") a Rheolau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau Cardiau Crafu") yn berthnasol. Mae'r Rheolau hyn yn ymdrin â thalu a dyfarnu'r Gwobrau a ddiffinnir yn y Rheolau hyn. I gael gwybodaeth am y Gêm (gan gynnwys sut i chwarae ac ennill), gweler y Gweithdrefnau.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y dogfennau a nodir uchod, y Rheolau Cardiau Crafu fydd drechaf, yna'r Rheolau hyn ac yna'r Gweithdrefnau.

Gallwch ddarllen y Rheolau Cardiau Crafu a'r Gweithdrefnau, ynghyd ag unrhyw Reolau Gêm Benodol, ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk/scratchcards**. Mae'r Rheolau Cardiau Crafu hefyd ar gael gan Fanwerthwyr. Gallwch hefyd gael copïau o bob un o'r dogfennau hyn drwy ffonio Llinell y Loteri Genedlaethol ar 0333 234 50 50 (mae'r taliadau a godir am alwadau i'w gweld yn yr adran Ymholiadau Dros y Ffôn) neu drwy ysgrifennu i The National Lottery, PO Box 251, Watford WD18 9BR.

Caiff pob gair ac ymadrodd yn y Rheolau hyn sy'n dechrau gyda phriflythyren ac y mae ystyr penodol iddo ei egluro yn Rheol 9 neu yn y Rheolau Cardiau Crafu (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

1. Hawlio Gwobrau

    1.1 Rhaid hawlio gwobrau yn bersonol cyn diwedd y Cyfnod Hawlio (fel y nodir yn y Rheolau Cardiau Crafu). Rhaid i Chi ffonio Llinell y Loteri Genedlaethol yn ystod ei horiau agor arferol* ac yn ystod y Cyfnod Hawlio er mwyn trefnu apwyntiad gyda chynrychiolydd/cynrychiolwyr Allwyn. Caiff Eich hawl i Wobr ei cholli (ac ni thelir y Wobr) os na chaiff Gwobr ei hawlio o fewn y Cyfnod Hawlio. Caiff Gwobrau eu talu yn Eich cartref neu mewn lleoliad arall y cytunir arno, neu mewn Canolfan Ranbarthol.

    *Ar adeg llunio'r Rheolau hyn, oriau agor y Ganolfan Gyswllt yw rhwng 8.00am ac 8.00pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 9am a 5pm ar ddydd Sul. Mae'n bosibl y bydd oriau agor cyfyngedig yn weithredol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gellir gweld yr oriau agor presennol ar wefan y Loteri Genedlaethol.

    1.2 Yn ystod Eich galwad ffôn â Llinell y Loteri Genedlaethol, gofynnir i Chi am wybodaeth benodol, gan gynnwys Eich enw, Eich cyfeiriad, Eich rhif(au) ffôn a'ch dyddiad geni ("Gwybodaeth Bersonol").

    1.3 Yn ystod Eich apwyntiad gyda chynrychiolydd/cynrychiolwyr Allwyn (y "Cyfarfod Dilysu"), lle bydd y Brocer yn bresennol hefyd, gofynnir i Chi gwblhau Ffurflen Hawlio Gwobr (a ddarperir gan Allwyn), neu unrhyw ffurflen arall y bydd yn ofynnol gan Allwyn i Chi ei llenwi, a'i chyflwyno ynghyd â'r Cerdyn Crafu buddugol, tystiolaeth o hawl i wobr a chadarnhad o'r Wybodaeth Bersonol a ddarperir o dan Reol 1.2.

2. Talu Gwobrau

2.1 Unwaith y bydd Eich hawliad wedi'i ddilysu'n llwyddiannus yn unol â gofynion y Rheolau Cardiau Crafu, y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn, caiff Taliad Cyntaf y Wobr ei dalu i Chi, oni fydd Rheol 2.7 neu Reol 6 isod yn berthnasol. Bydd Allwyn yn penderfynu sut y bydd yn gwneud Taliad Cyntaf y Wobr, a all fod ar ffurf siec neu drosglwyddiad banc. Bydd penderfyniad Allwyn ynghylch a yw'r hawliad yn ddilys yn derfynol ac yn gyfrwymol.

2.2 Oni fydd Rheol 2.7 neu Reol 6 yn berthnasol (a heb gyfyngu ar effaith Rheol 5), gofynnir i Chi lenwi ffurflen gais polisi blwydd-dal y Darparwr Blwydd-dal ("y Cais am Flwydd-dal") – dylid gwneud hyn gyda'r Brocer yn y Cyfarfod Dilysu. Yna, bydd y Brocer yn anfon y Cais am Flwydd-dal wedi'i lenwi a'r dogfennau a restrir yn Rheol 2.3(b) isod at y Darparwr Blwydd-dal, a bydd Allwyn yn gwneud taliad i'r Darparwr Blwydd-dal ar gyfer Premiwm y Polisi Blwydd-dal. Rydych yn cydnabod y bydd unrhyw oedi gennych Chi o ran llenwi'r ffurflenni a/neu ddarparu'r dogfennau y cyfeirir atynt uchod yn arwain at oedi o ran sefydlu'r Polisi Blwydd-dal. Ni fydd Allwyn yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw Gais am Flwydd-dal na/neu ddogfennau eraill a gaiff eu colli neu eu hoedi yn y post.

2.3 Drwy brynu tocyn ar gyfer y Gêm, rydych yn derbyn (ac eithrio lle bo Rheol 6 yn berthnasol) y bydd yn ofynnol i Chi wneud y canlynol:

(a) ar yr adeg berthnasol, llenwi a llofnodi'r holl ddogfennau gofynnol, gan gynnwys y Cais am Flwydd-dal, a'u cyflwyno i'r Brocer;

(b) cyflwyno Eich tystysgrif geni neu gopi o'ch pasbort llawn, ynghyd â'r holl dystysgrifau perthnasol sy'n cofnodi unrhyw newid i'ch enw, i'r Brocer i'w hanfon i'r Darparwr Blwydd-dal (gallwch ddarparu copi wedi'i ardystio gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (Cymru a Lloegr), y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (Gogledd Iwerddon), y Cofrestrydd Cyffredinol (yr Alban) neu'r Gofrestrfa Sifil (Ynys Manaw) fel y bo'n briodol, yn lle unrhyw dystysgrif wreiddiol); ac

(c) cadarnhau'n ysgrifenedig i Allwyn Eich bod wedi cael cyngor gan y Brocer.

2.4 Rydych hefyd yn derbyn ac yn deall y canlynol:

(a) y bydd y Polisi Blwydd-dal yn gontract rhyngoch Chi a'r Darparwr Blwydd-dal;

(b) nad oes gan Allwyn unrhyw atebolrwydd o unrhyw fath mewn perthynas â thalu Taliadau Blwydd-dal, peidio â'u talu na'u talu'n hwyr; ac

(c) nad oes gan Allwyn unrhyw atebolrwydd o unrhyw fath am unrhyw arweiniad (na chyngor, os byddwch yn gofyn amdano) y bydd y Brocer yn ei roi i Chi, nac am unrhyw golled o unrhyw fath, gan gynnwys colled anuniongyrchol neu ddilynol, a achosir i Chi o ganlyniad i gael arweiniad neu gyngor o'r fath, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

2.5 Bydd Allwyn yn ceisio sicrhau bod y Polisi Blwydd-dal ar waith cyn pen pedair wythnos ar ôl y Cyfarfod Dilysu. Fodd bynnag, ni fydd Allwyn yn atebol mewn unrhyw ffordd am unrhyw oedi o ran sefydlu Polisi Blwydd-dal nac am unrhyw golled o unrhyw fath a achosir i Chi o ganlyniad i oedi o'r fath, gan gynnwys heb gyfyngiad lle bo'r oedi hwnnw'n deillio o oedi gennych Chi o ran llenwi'r ffurflen(ni) a/neu ddarparu'r dogfennau y cyfeirir atynt uchod.

2.6 Ni ellir newid, ildio na chyfnewid y Polisi Blwydd-dal am arian parod ar ôl iddo gael ei sefydlu.

2.7 Os bydd cynrychiolydd personol Chwaraewr a fu farw yn hawlio Gwobr, a chaiff yr hawliad hwnnw ei dderbyn gan Allwyn yn unol â'r Rheolau Gêm Benodol hyn, telir y swm y byddai Allwyn wedi gorfod ei dalu er mwyn sefydlu'r polisi blwydd-dal ar gyfer y Chwaraewr a fu farw, yn ogystal â Thaliad Cyntaf y Wobr. Bydd Allwyn yn talu'r swm hwn i gynrychiolwyr personol y Chwaraewr a fu farw.

3. Treth

Mae'r Taliadau Blwydd-dal yn cynnwys elfen cyfalaf ac elfen llog. Ni fydd treth yn daladwy ar yr elfen cyfalaf, a bydd y dreth berthnasol yn daladwy ar yr elfen llog. Bydd swm y dreth y byddwch yn ei thalu yn dibynnu ar Eich amgylchiadau. Fodd bynnag, ar sail y rheolau a'r cyfraddau treth sy'n berthnasol ar ddyddiad cyhoeddi'r Rheolau Gêm Benodol hyn, ni fydd y Taliadau Blwydd-dal yn llai na £1,200,000 ar ôl didynnu treth. Dylech gysylltu â'ch Swyddfa Dreth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) leol am ragor o wybodaeth. Mae Allwyn yn argymell y dylech gael cyngor ariannol annibynnol ynghylch y Wobr a'r canlyniadau cysylltiedig o ran treth.

4. Nodweddion y Polisi Blwydd-dal

[Bydd y Polisi Blwydd-dal yn cynnwys gwarant premiwm. Mae hyn yn golygu, os byddwch farw cyn diwedd Cyfnod Talu'r Blwydd-dal, y bydd y Darparwr Blwydd-dal yn talu cyfandaliad sy'n gyfwerth â Phremiwm y Polisi Blwydd-dal i'ch ystâd, llai cyfanswm y Taliadau Blwydd-dal gros a wnaed hyd at y dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r Darparwr Blwydd-dal am Eich

marwolaeth.]

5. **Pobl nad ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig nac Ynys Manaw**

Os na fyddwch yn byw yn y Deyrnas Unedig nac ar Ynys Manaw ar y dyddiad y byddwch yn llenwi'r Cais am Flwydd-dal, neu'r dyddiad y byddech wedi ei lenwi fel arall, ni fydd hawl gennych i gael Polisi Blwydd-dal. Os bydd Allwyn a/neu'r Brocer yn gofyn i Chi wneud hynny, byddwch yn darparu tystiolaeth addas i gadarnhau p'un a oeddech yn byw yn y Deyrnas Unedig neu ar Ynys Manaw ar yr adeg berthnasol ai peidio, y bydd y Brocer yn ei hanfon at y Darparwr Blwydd-dal. Mae penderfyniad Allwyn yn derfynol ac yn gyfrwymol mewn unrhyw anghydfod sy'n ymwneud â ph'un a ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig neu ar Ynys Manaw ai peidio.

6. **Cyfnewid am Arian Parod**

6.1 Os na fydd gennych hawl i gael Polisi Blwydd-dal o ganlyniad i Reol 5 uchod, bydd Allwyn yn talu arian parod i Chi yn lle hynny. Bydd swm y taliad arian parod hwn yn gyfwerth â chyfanswm y swm y byddai Allwyn wedi gorfod ei dalu er mwyn sefydlu polisi blwydd-dal pe baech yn byw yn y Deyrnas Unedig neu ar Ynys Manaw ac yn gymwys i gael Polisi Blwydd-dal o dan y Rheolau Gêm Benodol hyn, yn ogystal â Thaliad Cyntaf y Wobr.

6.2 Yn amodol ar unrhyw hawl statudol i ganslo sydd gennych, ac eithrio fel y nodir fel arall yn Rheol 2.7 neu Reol 6, ni ellir cyfnewid y Polisi Blwydd-dal am arian parod. Fodd bynnag, ceidw Allwyn yr hawl i dalu cyfandaliad i chi os na all Allwyn (neu'r Brocer) drefnu Polisi Blwydd-dal ar Eich cyfer am resymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, neu os bydd Allwyn, yn ei farn resymol, yn credu bod hynny'n angenrheidiol.

7. **Eich gwybodaeth**

7.1 Mae Allwyn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion rheoliadol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd mewn perthynas â defnyddio data personol. Pan fydd Allwyn yn gweithredu fel rheolydd data, byddwn yn prosesu Eich data personol yn unol â'n Polisi Preifatrwydd, sydd ar gael yn **https://www.national-lottery.co.uk/privacy-policy**.

7.2 Drwy brynu tocyn ar gyfer y Gêm, rydych yn cydnabod ac yn cytuno i'r canlynol:

(a) y bydd yn ofynnol i Allwyn ddatgelu Eich enw a throsglwyddo rhywfaint o'ch Gwybodaeth Bersonol, neu Eich holl Wybodaeth Bersonol, i drydydd parti mewn perthynas â sefydlu Polisi Blwydd-dal (gan gynnwys y Brocer). Bydd Allwyn yn gwneud ei orau i sicrhau bod y trydydd parti yn cadw Eich manylion yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni all Allwyn warantu y bydd y trydydd parti yn trin Eich gwybodaeth yn gyfrinachol, ac nid yw'n gyfrifol nac yn atebol os bydd y trydydd parti hwnnw yn rhyddhau'r wybodaeth hon i eraill;

(b) y gall rhywfaint o'ch Gwybodaeth Bersonol, neu Eich holl Wybodaeth Bersonol, gael ei phrosesu gan y Brocer neu'r Darparwr Blwydd-dal y tu allan i'r DU neu'r AEE. Lle y caiff Eich data personol eu trosglwyddo y tu allan i'r DU neu'r AEE, bydd Allwyn yn mynnu bod y mesurau diogelu priodol ar waith; ac

(c) y caniateir i'r Brocer roi copi o unrhyw ddyfynbris y mae wedi'i gael ar gyfer Polisi Blwydd-dal i Allwyn, ac y caniateir i Allwyn roi copi o'r dyfynbris hwnnw i'r Comisiwn Hapchwarae, yn ogystal ag enw'r Darparwr Blwydd-dal ar gyfer y Polisi Blwydd-dal hwnnw.

8. **Y Gyfraith**

Y gyfraith berthnasol ar gyfer y Rheolau hyn yw Cyfraith Lloegr, a chaiff unrhyw achosion cyfreithiol eu cyflwyno gerbron Llysoedd Lloegr.

9. **Ystyr Geiriau**

Bydd gan y geiriau a'r termau canlynol yr ystyron isod (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Allwyn:** Allwyn Entertainment Ltd, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.

**Brocer:** Gallagher Risk and Reward Limited (rhif cofrestru 3265272), y mae ei swyddfa gofrestredig yn The Walbrook Building, 25 Walbrook, London, EC4N 8AW, neu unrhyw frocer arall a benodir gan Allwyn o bryd i'w gilydd.

**Cyfnod Talu Gwobr:** y cyfnod sy'n dechrau ar Ddyddiad Taliad Cyntaf y Wobr ac sy'n dod i ben pan fydd Gwobr wedi cael ei thalu'n llawn i Chi.

**Darparwr Blwydd-dal:** cwmni a awdurdodir i roi blwydd-daliadau yn y Deyrnas Unedig neu ar Ynys Manaw. Y Darparwr Blwydd-dal fydd un o'r darparwyr blwydd-dal a ddewisir gan y Brocer, yn unol ag unrhyw feini prawf a bennir gan Allwyn ac a argymhellir i Chi ac a dderbynnir gennych.

**Dyddiad Taliad Cyntaf y Wobr:** y dyddiad y telir Taliad Cyntaf y Wobr i Chi.

**Gwobr:** gwobr sy'n rhoi hawl i Chi gael £1,200,000 naill ai (a) ar ffurf 60 o Daliadau Gwobr misol yn ystod y Cyfnod Talu Gwobr neu (b) ar ffurf cyfandaliad, os yw Rheol 2.7 neu Reol 6 uchod yn berthnasol, yn amodol ar y Rheolau Cardiau Crafu a'r Rheolau hyn.

**Polisi Blwydd-dal:** atodlen y polisi, darpariaethau'r polisi a dogfennau eraill sy'n llunio polisi blwydd-dal. Caiff y Polisi Blwydd-dal ei sefydlu gan y Darparwr Blwydd-dal am gyfnod o 4 blynedd, yn unol â'r Rheolau Gêm Benodol hyn.

**Taliad Cyntaf y Wobr:** taliad cyntaf y Wobr, sef £20,000, a delir i Chi yn unol â Rheol 2.1.

**Taliad Gwobr:** swm o £1,200,000

Rhifau a Chyfeiriadau Cyswllt

YMHOLIADAU DROS Y FFÔN
Llinell y Loteri Genedlaethol:

Ffôn: 0333 234 50 50 (**0370.737.3983** ar gyfer cwynion)

Ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu clyw ac sy'n defnyddio offer Minicom, ffoniwch **0370.737.8249**

Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

YMHOLIADAU YSGRIFENEDIG CYFFREDINOL
The National Lottery PO Box 251 Watford WD18 9BR

E-BOST **help@national-lottery.co.uk**

GWEFAN **www.national-lottery.co.uk**

HAWLIO GWOBRAU DRWY'R POST
The National Lottery P0 Box 287, Watford, WD18 9TT

CYFEIRIAD CANOLFAN RANBARTHOL Y LOTERI GENEDLAETHOL
WATFORD (Pencadlys Allwyn) The National Lottery, Tolpits Lane, Watford WD18 9RN Ffôn: **01923 425000**

LERPWL – The National Lottery, 5 Tiger Court, Kings Drive, Kings Business Park, Prescot, Knowsley, Liverpool L34 1BH

Ffôn: **0151.236.1796**

18+

**GP GM1405**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY